# Adroddiad Data Cyflogaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2023-2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg ac ar gais mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd hygyrch.

E-bostiwch EquityAnd.Inclusion@wales.nhs.uk

# Ein Cyfrifoldeb

Ein cyfrifoldeb ni o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw sicrhau ein bod yn darparu gwybodaeth am sut rydym yn defnyddio'r data a gasglwn a sut mae'n berthnasol i nodweddion gwarchodedig. Rydym yn casglu gwybodaeth ddemograffig am ein staff i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg ac y gallant gael gafael ar unrhyw gymorth neu adnoddau y gallai fod eu hangen arnynt.

Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi ein gwybodaeth am grwpiau o staff sy'n dod o dan bob un o'r grwpiau nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Y nodweddion gwarchodedig hyn yw:

- Oedran
- Anabledd
- Ethnigrwydd
- Rhywedd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Crefydd
- Cyfeiriadedd Rhywiol

# Cynnwys y Cyhoeddiad

Rydym wedi cyhoeddi ein data yn unol â'r gofynion fformat a chynnwys a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae ein data yn darparu gwybodaeth am y staff yn ein cyflogaeth ar 31/3/2024. Darperir yr wybodaeth hon gan staff pan fyddant yn diweddaru eu manylion ar ein Cofnod Staff Electronig (ESR). O'r herwydd, mae'r data hwn yn dibynnu ar y wybodaeth y mae staff yn dewis ei darparu. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn parhau i wella ansawdd y data hwn drwy ein hymgyrch Data Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg.

# Ein Canfyddiadau

## Proffil Staff

Mae gennym 17,862 aelod o staff mewn swyddi ers 31 Mawrth 2004. Ein tri grŵp staff mwyaf yw 'Nyrsio a Bydwreigiaeth Gofrestredig', 'Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol', a 'Gweinyddol a Chlercol'. Ein lleiaf yw 'Myfyrwyr'.

## Oedran

Mae Tabl 1 yn rhoi manylion am oedrannau ein gweithlu. Ein grŵp oedran mwyaf yw 31-35, ac yna 36-40. Ein grŵp oedran lleiaf yw 71+.

*Tabl 1*

| Band Oedran | Cyfrif pennau |
|---|---|
| <=20 Mlynedd | 102 |
| 21-25 | 1250 |
| 26-30 | 2116 |
| 31-35 | 2389 |
| 36-40 | 2388 |
| 41-45 | 2148 |
| 46-50 | 2026 |
| 51-55 | 2094 |
| 56-60 | 1877 |
| 61-65 | 1125 |
| 66-70 | 256 |
| >=71 Mlynedd | 91 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **17862** |

## Anabledd

Mae gan staff y dewis i ddatgan unrhyw anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor a fyddai'n gymwys o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Tabl 2 yn dangos ein data ar hyn. Mae cyfanswm o 1.93% o staff wedi dewis peidio â datgelu'r wybodaeth hon, ac nid yw 19.22% o staff wedi cwblhau'r rhan hon o ESR. Mae cyfanswm o 6.95% o staff wedi dewis datgelu bod ganddynt anabledd.

*Tabl 2*

| Anabledd | Cyfrif pennau |
|---|---|
| Nac oes | 12706 |
| Amhenodol | 3433 |
| Ydw | 1241 |
| Heb ei ddatgan | 345 |
| Gwell gen i beidio ag ateb | 137 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **17862** |

## Ethnigrwydd

Mae ethnigrwydd hefyd yn gategori sy'n dibynnu ar hunan-ddatganiad staff i ni ei fesur. Mae Tabl 3 yn dangos ein data ar hyn. Mae cyfanswm o 88.18% o staff wedi dewis rhoi'r wybodaeth hon i ni.

*Tabl 3*

| Grŵp Ethnig | Cyfrif pennau |
|---|---|
| Gwyn | 13214 |
| Gwag | 1639 |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | 1444 |
| Heb ei ddatgan | 472 |
| Du neu Ddu Prydeinig | 412 |
| Unrhyw grŵp ethnig arall | 367 |
| Cymysg | 314 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **17862** |

## Rhywedd

Mae Tabl 4 yn dangos ein dadansoddiad o rywedd yn ôl grŵp staff. Mae cyfanswm o 75.76% o'n staff yn fenywod a 24.24% yn ddynion. Ar gyfer yr adran hon, dim ond pwyntiau data gwrywaidd a benywaidd yr ydym yn eu casglu ar ESR.

*Tabl 4*

| Rhywedd | Cyfrif pennau |
|---|---|
| Benyw | 13533 |
| Gwryw | 4329 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **17862** |

## Ailbennu Rhywedd

Nid ydym yn gofyn i staff a ydynt yn ystyried, yn cael neu wedi cael triniaeth ailbennu rhywedd felly nid oes amcangyfrif o'r grŵp staff hwn.

## Priodas a Phartneriaeth Sifil

Mae Tabl 5 yn dangos bod y categorïau “Sengl” a “Phriod” yn cyfrif am y rhan fwyaf o statws priodasol a phartneriaeth sifil ein staff, sef 85.4%. Nododd cyfanswm o 36.12% o'n staff eu bod yn “Sengl”, a nododd 49.28% o'n staff eu bod yn briod. Nododd 1.18% o'r staff eu bod mewn Partneriaeth Sifil.

*Tabl 5*

| Statws Priodasol | Cyfrif pennau |
|---|---|
| Priod | 8338 |
| Sengl | 6111 |
| Anhysbys | 1028 |
| (gwag) | 944 |
| Wedi ysgaru | 912 |
| Mewn partneriaeth sifil | 307 |
| Gweddw | 133 |
| Wedi gwahanu'n gyfreithiol | 89 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **17862** |

## Beichiogrwydd a Mamolaeth

Ar 31 Mawrth 2023, roedd 2.44% o bobl ar absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu. Mae Tabl 6 yn dangos ein data ar hyn.

*Tabl 6*

| Statws Aseiniad | Cyfrif pennau |
|---|---|
| Mamolaeth a Mabwysiadu | 436 |

## Crefydd

Fel sawl nodwedd warchodedig arall, mae crefydd yn gategori y mae hunan-ddatganiadau staff ar ESR yn effeithio'n sylweddol arno. Mae Tabl 7 yn dangos ein data ar hyn. Mae cyfanswm o 70.2% o staff wedi darparu'r wybodaeth hon, gyda'r rhan fwyaf o'r staff yn nodi eu bod yn Gristnogion.

*Tabl 7*

| Cred Grefyddol | Cyfrif pennau |
|---|---|
| Cristnogaeth | 6632 |
| Amhenodol | 3437 |
| Anffyddiaeth | 3400 |
| Nid wyf am ddatgelu fy nghrefydd/cred | 1887 |
| Arall | 1678 |
| Islam | 442 |
| Hindŵaeth | 253 |
| Bwdhaeth | 99 |
| Sikhiaeth | 20 |
| Iddewiaeth | 10 |
| Jainiaeth | 4 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **17862** |

## Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae Cyfeiriadedd Rhywiol yn nodwedd warchodedig arall sy'n dibynnu ar staff yn dewis darparu'r wybodaeth hon. Mae Tabl 8 yn dangos ein data. Mae cyfanswm o 77% o staff wedi dewis darparu eu cyfeiriadedd rhywiol ar ESR.

*Tabl 8*

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Cyfrif pennau |
|---|---|
| Heterorywiol neu Syth | 12932 |
| Amhenodol | 3423 |
| Heb ei nodi (gofynnwyd i'r person ond gwrthododd ymateb) | 698 |
| Hoyw neu Lesbiaidd | 419 |
| Deurywiol | 298 |
| Heb benderfynu | 49 |
| Cyfeiriadedd rhywiol arall heb ei restru | 43 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **17862** |